



Cynllun Cynorthwyo Gwaed
Heintiedig Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme

CANLLAWIAU AR GYFER FFURFLEN L

CEISIADAU AM DALIAD HEPATITIS C CRONIG A DATBLYGEDIG LLE MAE'R PERSON HEINTIEDIG WEDI MARW

CANLLAWIAU AR GYFER YMGEISWYR

Gan ddefnyddio'r ffurflen hon, gall **Ystâd** person ymadawedig wneud cais i Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru, yn yr achosion hynny lle **nad** oedd yr ymadawedig wedi cofrestru ar y cynllun eisoes, nac ar unrhyw rai o gynlluniau'r DU (e.e. Cronfa Skipton) mewn perthynas â thaliadau Hepatitis C, ac a gafodd:

- Haint Hepatitis C yn sgil triniaeth gyda gwaed, cynhyrchion gwaed neu feinwe'r GIG

Neu

- Haint Hepatitis C ar ôl i'r firws gael ei drosglwyddo o rywun arall, ac mae'r un a drosglwyddodd yr haint wedi eu heintio gan Hepatitis C yn sgil triniaeth gyda gwaed, cynhyrchion gwaed neu feinwe'r GIG

Bydd y ffurflen hon hefyd o gymorth wrth asesu a oedd gan yr ymadawedig hawl i dderbyn taliadau Hepatitis C Datblygedig. I fod â hawl i dderbyn y taliadau hyn, mae'n rhaid yr oedd gan yr ymadawedig haint Hepatitis C Cronig ac wedi datblygu un o'r rhain:

- Sirosis
- Canser Sylfaenol yr Iau
- Lymffoma Cell-B nad yw'n Lymffoma Hodgkin
- Wedi cael trawsblaniad iau, neu ar y rhestr aros i dderbyn un

Ymhob achos, mae'n rhaid bod y person ymadawedig yn byw yng Nghymru pan fu farw, neu os oedd yn byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig, mae'n rhaid ei fod/ei bod yn byw yng Nghymru yn union cyn iddo/iddi adael y DU.

Os yw'r amgylchiadau yn wahanol i'r hyn sydd uchod, cysylltwch â Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru am arweiniad.

Os oedd yr ymadawedig yn briod, mewn partneriaeth sifil neu mewn perthynas hirdymor ar yr adeg y bu farw, gall y partner a'i goroesodd fod â hawl i gymorth gan y cynllun hefyd. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid i Ystâd yr ymadawedig sicrhau bod y cais hwn wedi ei gymeradwyo yn gyntaf cyn y gall y partner sydd ar ôl gofrestru am gymorth gan y cynllun.

SUT I WNEUD CAIS

Mae'n rhaid i'r ffurflen hon gael ei chwblhau gan Ysgutor Ystâd yr ymadawedig, neu ar ran pob un o'r Ysgutorion os oes mwy nag un. Mae'n rhaid i'r person hwnnw gwblhau pob rhan o Adran 1 y ffurflen hon. Dylid rhoi'r ffurflen gyfan i weithiwr meddygol proffesiynol ar ôl hynny, a fydd yn cwblhau Adrannau 2-11. Wedyn mae'n rhaid i'r gweithiwr meddygol proffesiynol anfon y ffurflen sydd wedi ei chwblhau i Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru.

Yn gyffredinol, dylai'r gweithiwr meddygol proffesiynol fod y prif glinigydd a driniodd yr ymadawedig. Mae'n debyg mai'r clinigydd a'i triniodd am Hepatitis C fydd hwn, ond yn achos person ymadawedig a oedd ag anhwylderau gwaedu (megis haemoffilia), gall fod yn haematolegydd.

Os oes gennych chi unrhyw gofnodion am sut y cawsoch chi eich heintio, rhwch gopiâu i'r gweithiwr meddygol proffesiynol a fydd yn cwblhau gweddill y ffurflen.

DOGFENNAU ATEGOL SYDD EU HANGEN

Darparwch gopi o Dystysgrif Marwolaeth y buddiolwr ymadawedig.

Ar ôl derbyn y cais oddi wrth y gweithiwr meddygol proffesiynol, bydd Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru yn cysylltu â chi yn gofyn am gopiâu o ddogfennau perthnasol eraill (er enghraifft, ewyllys y person ymadawedig, copi o'r Grant Cynrychioliaeth gan y Llys, ayyb, fel y bo'n briodol).

BETH SY'N DIGWYDD NESAF

Ar ôl i'r gweithiwr meddygol proffesiynol gwblhau'r ffurflen, mae'n rhaid iddo/iddi ei hanfon, ynghyd â chopi o bob cofnod perthnasol, i Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru. A bwrw y bydd y wybodaeth a ddarparwyd yn cadarnhau'r hawl i dderbyn taliad, cewch chi lythyr gan y Cynllun i gadarnhau hyn a bydd yn gofyn ichi ddarparu unrhyw fanylion pellach.

CYMORTH GYDA'R FFURFLEN HON

Os bydd angen cymorth arnoch chi i gwblhau'r ffurflen hon, cysylltwch â Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru: